# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid<br>*Clerk and Chief Financial Officer*<br>**Bethan Roberts**<br>Rhif Ffôn: 01248 602131<br>Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 20 Chwefror 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd David Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.
   **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Seddi Gwag -** Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi creu taflen ar gyfer eu dosbarthu i'r gymuned ym Mynydd Llandygai a Sling – ar y gweill.

3.2 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, a chadarnhawyd fod y gwelliannau ar y rhaglen waith – ar y gweill.

3.3 **Llecyn Tir Bont Twr** - Derbyniwyd ymateb gan adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd, a chadarnhawyd fod Village Green 32 ar hyn o bryd yn dangos y Cyngor Cymuned fel perchennog y tir dan sylw . Mae statws Village Green yn annibynnol o berchnogaeth felly bydd yn aros fel Village Green hyd yn oed os yw'r gofrestr perchnogaeth yn newid.

3.4 **Murlun Canolfan Tregarth** – Nodwyd fod y gwaith wedi cychwyn – ar y gweill.

3.5 **Cais bin baw ci –** Cadarnhawyd fod y Cyngor wedi gwneud cais ychwanegol am fin baw ci ger mynediad Lôn Las ar Allt Cerrigllwydion – dim ymateb hyd yn hyn.

3.6 **Cae'r Gors -** Adroddwyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd ar y safle i drafod goryrru ar y ffordd. Adroddwyd nad oedd problemau amlwg i weld ar hyn o bryd, heblaw am arwyddion wedi ei daro ac angen ei ail osod. Y Cyngor y gadw llygaid ar y mater.

**3.7** **Cais i estynu'r goleuadau stryd** - Adroddwyd nad oes bosib estynu'r goleuadau stryd o Arafon am Ffarm Bwlch oherwydd mai polion BT yw'r rhain, ddim rhai trydan.

**3.8** **Gwaith coed Parc y Bwlch - Lon y Grug -** Derbyniwyd gohebiaeth gan breswylydd lleol yn amlygu'r difrod a achoswyd i'r ffordd o ganlyniad i'r loris mawr, y Clerc mewn cyswllt gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Nodwyd hefyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd i adrodd am lwybr 24, nodwyd fod y swyddog yn ymwybodol o'r problemau ac yn cadw llygaid ar y sefyllfa.

**3.9** **Gordyfiant -** Tyfiant angen ei dorri rhwng fferm Bwlch ac Arafon, y Clerc wedi hysbysu Ian Morgan, Cyngor Gwynedd.

**3.10** **'Tre-garth' -** Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi dechrau defnyddio 'Tre-garth' yn lle Tregarth. Adroddwyd Cyngor Gwynedd ers tro bellach mae sawl corff cyhoeddus (ar wahân i Gyngor Gwynedd) wedi dewis defnyddio rhestr enwau lleoedd y Comisiynydd Iaith. Mae hyn wedi codi ffrae enfawr yng Ngheredigion y barod ac mae'n dechrau codi ei ben yma eto. Mae rhestr y Comisiynydd yn defnyddio sillafiad enwau sy'n groes i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio ar lawr gwlad a gan gynghorau lleol. Mae'n debyg felly na fydd modd newid yr enw tan fydd y ffiniau yn cael eu hadolygu eto.

**3.11** **Rhwydwaith E-fws Zip World -** Derbyniwyd ymateb i'r llythyr gwrthwynebiad gan Brif Weithredwr a Phennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

### 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2025'

**4.1** **Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith - Comisiwn Cymunedau Cymraeg** - Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi, y Clerc i ddanfon llythyr at Mark Drakeford AS.

**4.2** **Sian Gwenllian AS, Ysgol Ddeintyddol ym Mangor** - Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig, y Clerc i ddanfon llythyr at Jeremy Miles AS.

**4.3** **Cyngor Gwynedd, Arolwg Gwynedd 2025 –** Pawb i ymateb fel unigolion.

**4.4** **Ian Morgan - ail-leoli bin halen Allt yr Ocar** - Penderfynwyd ail-leoli'r bin halen yma i Stad Cae'r Gors, Tregarth.

**4.5** **Llecyn Tir Bont Twr -** Trafodwyd o dan bwynt 3.3 - uchod.

**4.6** **Un Llais Cymru, Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 –** ymateb erbyn 14 Mawrth 2025.

**4.7** **Cyfeillion Llyn** - Penderfynwyd bydd y Cyngor yn mabwysiadwy polisi iaith eu hunain. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cefnogi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a datganiad Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol. (*Cyng. Iwan Hywel yn datgan diddordeb)*

**4.8** **Lliwen Morris - 5% chwyddiant ar rent canolraddol, Cae'r Gors** - Penderfynwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr at Adra i ofyn pam fod codiad o 5% ar rent canolraddol.

### 5. Polisi Iaith

Lluniwyd polisi drafft gan y Cyng. Iwan Hywel, a phenderfynwyd mabwysiadwu'r polisi hwn.

### 6. Rhoddion

Ni dderbyniwyd llawer o geisiadau, felly penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hon yn cyfarfod mis Mawrth.

**7. Gwaith y mis**

**7.1 Gwaith patsio'r ffyrdd -** Nodwyd fod y safon y gwaith cynnal a chadw/patsio ar y ffyrdd o fewn y plwyf yn warthus, a bod angen ysgrifennu llythyr o gŵyn at Gyngor Gwynedd.

**7.2 Glanhau cysgodfannau bws -** Y Clerc i holi os oes bosib i Swyddog Cynnal y Bartneriaeth ymgymryd â'r gwaith glanhau.

**7.3 Llwybr cyhoeddus 49 -** Adroddwyd fod angen llawer o welliannau i'r llwybr hwn, y Clerc i gysylltu gyda Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth** - Adroddwyd bydd y Pwyllgor, y Clerc ac adran eiddo Cyngor Gwynedd yn cyfarfod ar y 27ain o Chwefror i drafod y brydles.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Llais Ogwan | Hysbyseb rhoddion | £20.70 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** Tynnwyd yn ôl |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0847/16/DT** | 4, Fron Ogwen, Tregarth<br>Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C24/1103/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu dormer cefn ynghyd a mynedfa newydd a newidiadau mewnol.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0997/16/LL** | Hen Pandy Craig Y Pandy, Tregarth<br>Newid defnydd uned wyliau yn dŷ annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1090/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Bwriad i godi adeilad swyddfa a storfa newydd ynghyd â mynediad newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith tirlunio meddal ar dir i'r gorllewin o Benrala, Tregarth<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1058/16/LL** | Parth 3 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Adeiladu 4rh. uned ddiwydiannol newydd a thirlunio allanol cysylltiedig ar Lain C3 ym Mharc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/1134/16/DT** | Tŷ Newydd Tal Gae, Tregarth,<br>Cais Cynllunio Ôl-weithredol ar gyfer dymchwel hen garej/gweithdy/sied a gosod un newydd yn ei le.<br>Penderfyniad: ar y gweill. |
| **C24/1106/16/DT** | Y Stabl, Llandygai, Bangor<br>Estyniad Ystafell Haul Cefn Un Llawr Newydd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C25/0111/16/DT** | 3 Hendypeg, Tregarth<br>Gosod pwmp gwres Riello<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C25/0003/16/DT** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Codi 3 boeler biomas ( cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C25/0048/16/CR** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, Mynydd Llandygai<br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C25/0042/16/LL** | Parth 4 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Bwriad i godi 4 uned ddiwydiannol o fewn un adeilad ynghyd a ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C24/0934/16/LL** | Uned Porth Penrhyn, Bangor<br>Caniatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.